

- Cynnal unrhyw strwythurau cymeradwy ar eich darn chi o'r cwrs dŵr. Gall hyn gynnwys ceuffosydd, coredau a chlwydi melin.

Mae'n rhaid i'r strwythurau hyn gael eu cynnal a chadw'n iawn a'u cadw'n glir o unrhyw ysgyrrion a allai rwystro llif rhydd dŵr ar eich tir neu gael ei olchi ymaith i achosi rhwystr mewn strwythur yn is i lawr. Rhaid i chi beidio codi strwythur newydd (er enghraifft, lwybr pren) sy'n tresmasu ar y cwrs dŵr neu sy'n newid llif y dŵr heb yn gyntaf gael caniatâd gan eich Cyngor lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru.



## Hawliau Perchnog Glannau

- Derbyn llif dŵr yn ei gyflwr naturiol, heb ymyriad gormodol mewn cyfaint neu ansawdd.

Os credwch fod perchnogion tir i fyny neu i lawr y cwrs dŵr wedi newid neu wyro'r cwrs dŵr a rannwch, a bod hyn yn effeithio ar lif dŵr drwy eich tir, efallai y byddwch am gysylltu â'r Cyngor lleol i gael cyngor. Yn ychwanegol, nid oes gan bobl eraill o reidrwydd hawl i ollwng dŵr i'ch cwrs dŵr chi. Er mwyn gwneud hynny, gall fod angen iddynt gael caniatâd gennych chi a hefyd gan y Cyngor lleol a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Diogelu eich eiddo rhag llifogydd o'r cwrs dŵr ac atal erydu ar lannau'r cwrs dŵr neu unrhyw strwythurau cyfagos.

Ar gyfer y rhan fwyaf o waith mae'n rhaid i chi wneud cais am ganiatâd ffurfiol gan y Cyngor, fydd yn asesu'r cais i wneud y siŵr na fydd y gwaith yr ydych yn ei gynllunio yn cael effaith niweidiol yn uwch neu'n is ar y cwrs dŵr. Bydd y Cyngor hefyd yn asesu os yw unrhyw waith yn debygol o effeithio ar yr amgylchedd lleol, pysgodfeydd a bywyd gwylt, y mae ganddynt ddyletswydd i'w diogelu.

*Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yng ngofal cynnal a chadw'r prif afonydd a rhai cyrsiau dŵr ar Wastadeddau Gwent. Y Cyngor sy'n goruchwyllo pob cwrs dŵr arall yn Sir Fynwy.*

### Cyngor Sir Fynwy

[www.monmouthshire.gov.uk](http://www.monmouthshire.gov.uk)

01633 644644

E-bost: [contact@monmouthshire.gov.uk](mailto:contact@monmouthshire.gov.uk)



### Cyfoeth Naturiol Cymru

[www.cyfoethnaturiol.cymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiol.cymru.gov.uk)

0300 065 3000

E-bost: [enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)



*Gellir hefyd gael cyngor gan y Fforwm Llifogydd cenedlaethol yn [www.nationalfloodforum.org.uk](http://www.nationalfloodforum.org.uk)*

Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw cyrsiau dŵr ar dir preifat, y perchnogion sy'n gyfrifol am hynny. Mae gan y Cyngor bwerau dan y Ddeddf Draeniad Tir i'w gwneud yn ofynnol i berchnogion eu cynnal a'u cadw.

*Mae'r daflen hon yn ganllaw ar gyfer perchnogion glannau – nid yw'n ddatganiad cyflawn o'r gyfraith. Os ydych yn ansicr o'ch hawliau a'ch cyfrifoldebau, cysylltwch â'r Cyngor neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn y lle cyntaf i gael cyngor a gwybodaeth.*



# BYW AR Y GLANNAU YN SIR FYNWY



**A oes afon, nant, ffos neu geuffosydd yn rhedeg drwy neu wrth ochr eich eiddo?**

**Os oes, mae'n debyg mai chi sy'n gyfrifol am ei chynnal a'i chadw ac mae'r canllawiau hyn ar eich cyfer chi.**

Caiff rhywun sy'n berchen eiddo sydd yn ymyl cwrs dŵr neu sydd â chwrs dŵr yn rhedeg drwyddo yn **berchennog glannau**. Dan y gyfraith gyffredin, mae gan berchnogion glannau hawliau a chyfrifoldebau neilltuol yn ymwneud â'r rhan o'r cwrs dŵr sy'n llifo drwy neu wrth ochr eu tir.

Nid dim ond ffermwyr sy'n berchnogion glannau. Efallai nad yw perchnogion tai yn sylweddoli mai nhw sydd piau'r ffos ar waelod eu gardd ac y gallent fod yn gyfrifol am ei chynnal a'i chadw. Os ydych yn berchennog glannau, mae cyfrifoldebau neilltuol yr mae'n ofyniad cyfreithiol arnoch eu cyflawni. Nod y cyfreithiau hyn yw helpu rheoli risg llifogydd a diogelu'r amgylchedd.



*'Cwrs dŵr cyffredin; yw unrhyw sianel y mae dŵr yn llifo drwyddi (tebyg i afon, nant neu ffos) ac na chaiff ei diffinio yn 'brif afon' gan Cyfoeth Naturiol Cymru.*

## Cyfrifoldebau Perchennog Glannau

- **Cynnal a chadw y cwrs dŵr a chlirio unrhyw rwystr (naturiol fel arfer) fel na chaiff llif arferol dŵr ei atal.**



Mae'n rhaid i chi glirio unrhyw ysgyrion o'ch rhan chi o'r cwrs dŵr er mai dim eich bai chi yw fod yr ysgyrion yno. P'un ai'n rhwystr gwneuthuredig neu naturiol, chi sydd yn gyfrifol am gadw'r cwrs dŵr yn rhydd o sbwriel, toriadau glaswellt, cyrff anifeiliaid a choed wedi cwmpo ac yn y blaen..

- **Cynnal a chadw glannau a gwely'r cwrs dŵr (yn cynnwys unrhyw goed a pherthi yn tyfu ar y glannau) ac unrhyw amddiffynfeydd llifogydd sydd arno.**



*Lle mae cwrs dŵr yn nodi terfyn rhwng eiddo sy'n cydffinio, fel arfer tybir fod perchennog glannau yn berchen y tir hyd at linell ganol y cwrs dŵr.*

Rhaid i chi beidio newid neu wyro llif y dŵr heb ganiatâd gan y gall hyn gael effaith ar eiddo yn is i lawr y cwrs dŵr. Os oes gennych amddiffynfeydd llifogydd ar eich eiddo, gallech fod yn gyfrifol am eu cynnal a chadw. Gallwch gysylltu â'r Cyngor neu Cyfoeth Naturiol Cymru i gael help a mwy o gyngor..

- **Derbyn llif naturiol o'ch cymydog yn uwch i fyny y cwrs dŵr a'i drosglwyddo yn is i lawr heb rwystr, llygredd na gwyro.**

Mae'n rhaid i chi dderbyn dŵr llifogydd drwy eich tir, hyd yn oed os y cafodd dŵr gormodol ei achosi gan gynhwysedd annigonol yn is i lawr y cwrs dŵr. Nid yw perchnogion tir yn is i lawr na'ch eiddo dan unrhyw rwymedigaeth i wella cynhwysedd draeniad eu darn nhw o'r cwrs dŵr er fod ganddynt yr un cyfrifoldeb â chi i'w gynnal a chadw.



*Os ydych yn ansicr os mai chi yw perchennog glannau y cwrs dŵr sy'n rhedeg drwy eich tir, edrychwch ar weithredoedd eich eiddo..*